

CYLCHLYTHYR IECHYD CYMRU



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Dyddiad Cyhoeddi: 25 Gorffennaf 2019

STATWS: GWEITHREDU

CATEGORI: IECHYD Y CYHOEDD

Teitl: DIWEDDARU CANLLAWIAU AR GYFER CLIRIO A RHEOLI GWEITHWYR GOFAL IECHYD SY'N BYW Â FEIRWS A GLUDIR YN Y GWAED

Dyddiad dod i ben / Adolygu Amherthnasol

I'w weithredu gan:

Prif Weithredwyr - Byrddau Iechyd ac
Ymddiriedolaethau'r GIG

Er gwybodaeth: Darparwyr gofal iechyd
annibynnol

Rhestr ddsbarthu yn atodiad 1

Angen gweithredu erbyn: Ar unwaith

Anfonwyd gan: Dr Frank Atherton, Prif Swyddog Meddygol / Cyfarwyddwr Meddygol GIG Cymru
Yr Athro Jean White CBE, Prif Swyddog Nyrsio
Dr Colette Bridgman, Prif Swyddog Deintyddol

Enw(au) Cyswilt GIGC Llywodraeth Cymru:

Stephen Barry, Is-adran Iechyd y Cyhoedd, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ
E-bost: HealthProtection@llyw.cymru Ffôn: 03000 628328

Dogfen(nau) amgaeedig: Atodiad 1 – Rhestr ddsbarthu

Annwyl Gydweithwyr

DIWEDDARU CANLLAWIAU AR GYFER CLIRIO A RHEOLI GWEITHWYR GOFAL IECHYD SY'N BYW Â FEIRWS A GLUDIR YN Y GWAED

Yn dilyn [WHC/2017/045](https://www.gov.uk/government/publications/bbvs-in-healthcare-workers-health-clearance-and-management) a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2017, rydym yn ysgrifennu i roi gwybod i chi bod y canllawiau ar gyfer clirio a rheoli gweithwyr gofal iechyd sy'n byw â feirws a gludir yn y gwaed wedi cael eu diweddarau. Ceir crynodeb o'r newidiadau isod, a gellir gweld y canllawiau diweddaraf yma: <https://www.gov.uk/government/publications/bbvs-in-healthcare-workers-health-clearance-and-management>

Newidiadau i'r argymhellion ynghylch gweithwyr gofal iechyd sy'n byw â Hepatitis B (HBV)

Mae'r canllawiau ynghylch cyfyngu ar allu gweithwyr gofal iechyd sy'n byw â HBV i gynnal triniaethau lle mae perygl o ddod i gysylltiad â'r feirws wedi'u diweddarau. Roedd y canllawiau blaenorol yn cyfyngu ar waith gweithwyr gofal iechyd sy'n byw â HBV os oeddent yn e-Antigen (HBeAg) positif a/neu bod cyfanswm y feirws yn y gwaed cyn triniaeth yn >20,000 IU/mL (105 gEq/ml). Mae'r cyfyngiadau hynny wedi'u diddymu bellach ar yr amod bod y gweithwyr gofal iechyd yn bodloni'r meini prawf i gael eu clirio ac yn cydymffurfio â champau monitro gan y Gwasanaeth Iechyd Galwedigaethol, fel y gwelir yn y canllawiau diweddaraf a gyhoeddwyd gan Banel Cynghori'r DU ar gyfer Gweithwyr Gofal Iechyd sydd wedi'u Heintio â Feirysau a Gludir yn y Gwaed (UKAP). Daw'r newid hwn gan fod llai o risg o drosglwyddo'r feirws bellach yn sgil triniaethau newydd, effeithiol sydd nawr ar gael ar gyfer HBV.

Ar ben hynny, rhaid i'r gweithwyr gofal iechyd sy'n byw â HBV ac sydd am gynnal triniaethau lle mae perygl o ddod i gysylltiad â feirws gael eu cofrestru ar gofrestr genedlaethol gyfrinachol, sef UKAP-OHR (*UK Advisory Panel for Healthcare Workers Infected with Blood-borne Viruses – Occupational Health Monitoring Register for BBV Infected HCWs*). Bydd UKAP-OHR yn cael ei rheoli gan Public Health England. Ceir rhagor o wybodaeth am sut i gofrestru gweithwyr gofal iechyd ar UKAP-OHR [yma](#).

Newidiadau i argymhellion ynghylch ymarferion 'edrych yn ôl' / hysbysu cleifion

Roedd y canllawiau blaenorol yn argymhell cynnal cyfres o ymchwiliadau yn dilyn diagnosis o feirws a gludir yn y gwaed (hynny yw HIV, HBV a Hepatitis C (HCV)) mewn gweithiwr gofal iechyd a oedd wedi cynnal triniaethau lle'r oedd perygl o ddod i gysylltiad â feirws. Roedd y rhain yn cynnwys i) mentrau i edrych yn ôl er mwyn gweld pa driniaethau a gyflawnwyd gan y gweithiwr gofal iechyd, ii) croes-gyfeirio'r cofnodion hynny gyda chronfeydd data sy'n dal cofnodion am bobl a gafodd ddiagnosis o feirws a gludir yn y gwaed er mwyn gweld a arweiniodd unrhyw driniaethau at ddiagnosis dilynol a, lle bo'n briodol, iii) ymarferion i ysbysu cleifion gan ddarparu gwybodaeth a chynnig sgrinio'r cleifion yr amheuir bod risg iddynt.

Yn ôl adolygiad gan UKAP, wrth edrych ar achosion pan ganfuwyd bod gweithiwr gofal iechyd wedi'i heintio â feirws yn y gwaed ond pan nad oedd tystiolaeth gychwynnol ei fod wedi trosglwyddo'r feirws hwnnw i gleifion, canfuwyd nad oedd ymarferion hysbysu cleifion byth yn dod o hyd i drosglwyddiad o'r fath; ar ben hynny, mae ymchwiliadau o'r fath yn ddwys o ran adnoddau ac mae hysbysu cleifion yn aml yn achosi pryder i'r rhai sy'n cael neges. O ganlyniad i'r adolygiad hwn, mae'r meini prawf ar gyfer cynnal ymchwiliad manwl i iechyd y cyhoedd a hysbysu cleifion wedi cael eu diwygio. Yr unig amser y bydd hyn yn digwydd bellach yw pan fo'n hysbys (neu pan fo amheuaeth) bod claf wedi cael haint oddi wrth weithiwr gofal iechyd neu pan fo pryder am arferion y gweithiwr gofal iechyd a allai fod wedi arwain at fwy o berygl o ddod i gysylltiad â'r feirws.

Mae'r newidiadau sy'n cael eu disgrifio uchod yn bwysig er mwyn sicrhau bod gweithwyr gofal iechyd sy'n byw â feirysau a gludir yn y gwaed yn cael eu rheoli mewn ffordd gymesur, gan adlewyrchu'r gwahanol opsiynau o driniaethau sydd bellach ar gael a'n dealltwriaeth o agweddau hirydymor byw gyda'r heintiau hyn, ond gan sicrhau nad oes unrhyw gyfaddawdu ar ddiogelwch y cleifion ar yr un pryd.

Rydym yn gobeithio y bydd diddymu'r cyfyngiadau ar gynnal triniaethau lle bo perygl o ddod i gysylltiad â feirws, a'r argymhelliad y dylid cynnal ymarferion hysbysu cleifion / edrych yn ôl dan amgylchiadau eithriadol yn unig yn rhoi tawelwch meddwl i weithwyr gofal iechyd, ac yn golygu eu bod yn teimlo'n ddigon hyderus i ofyn am gyngor a phroffion am feirysau a gludir yn y gwaed os ydynt yn bryderus am ddod i gysylltiad â haint yn y gweithle neu mewn mannau eraill.


Hoffem fanteisio ar y cyfle hwn hefyd i atgoffa pawb am fanteision sylweddol iawn adnabod a thrin feirysau yn y gwaed. Mae'r triniaethau sydd ar gael ar gyfer HBV (os oes angen) a HIV yn gyffredinol yn ddiogel, yn hawdd eu cymryd ac yn effeithiol tu hwnt wrth ffrwyno'r feirysau. Ar gyfer HCV, mae'r cwrs byr o driniaeth yn ddiogel, hawdd ei gymryd ac, bron ym mhob achos, yn gwella'n llwyr.

Ceir rhagor o wybodaeth am gynnwys y llythyr hwn yma neu drwy gysylltu ag UKAP
(Ukap@phe.gov.uk)


Yn gywir



Dr Frank Atherton
Prif Swyddog Meddygol /
Cyfarwyddwr Meddygol GIG Cymru



Yr Athro Jean White CBE
Prif Swyddog Nyrsio /
Cyfarwyddwr Nyrsio GIG Cymru



Dr Colette Bridgman
Prif Swyddog Deintyddol

Atodiad 1
Rhestr Ddosbarthu

Prif Weithredwyr	Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau'r GIG
Cadeiryddion	Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau'r GIG
Ysgrifenyddion Byrddau	Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau'r GIG
Cyfarwyddwr Meddygol	Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau'r GIG
Cyfarwyddwr Nyrsio	Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau'r GIG
Meddygon a Nyrsys Iechyd Galwedigaethol	Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau'r GIG
Microbiolegyddion a Feirolegyddion Ymgynghorol	Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau'r GIG
Meddygon a Nyrsys Rheoli Heintiau	Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau'r GIG
Prif Weithredwr	Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Prif Weithredwr	Iechyd Cyhoeddus Cymru
Cadeirydd	Iechyd Cyhoeddus Cymru
Cyfarwyddwyr Iechyd y Cyhoedd	Byrddau Iechyd
Ymgynghorwyr Rheoli Clefydau Trosglwyddadwy	Iechyd Cyhoeddus Cymru
Ymgynghorydd Iechyd Deintyddol Cyhoeddus	Iechyd Cyhoeddus Cymru
Cadeirydd ac Ysgrifenyddiaeth	Cymdeithas Feddygol Prydain (Cymru)
Cyfarwyddwr	Cymdeithas Feddygol Prydain
Cadeirydd ac Ysgrifenyddiaeth	Pwyllgor Meddygol Cymru
Cyfarwyddwr	Coleg Nyrsio Brenhinol
Prif Weithredwr	Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth
Cyfarwyddwr	Cymdeithas Ddeintyddol Prydain yng Nghymru
Cadeirydd	Pwyllgor Ymarferwyr Deintyddol Cyffredinol Cymru
Cadeirydd ac Ysgrifenyddiaeth	Pwyllgor Deintyddol Cymru
Rheolwr Technegol sector Llywodraeth Ganolog a GIG	Swyddfa Archwilio Cymru
Cyfarwyddwr	Rhwydwaith Canser De Cymru
Rheolwr Gyfarwyddwr Dros Dro	Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru
Ysgrifennydd y Pwyllgor	Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru
Prif Gomisiynydd Dros Dro y Gwasanaethau Ambiwylans	Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwylans Brys
Cadeirydd	Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwylans Brys

Ysgrifennydd y Pwyllgor	Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwylans Brys
Cyfarwyddwr	Cydweithrediaeth Iechyd Cymru Gyfan
Rheolwr Gyfarwyddwr	Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru
Pennaeth Gwasanaethau Corfforaethol	Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru
Rheoli Busnes	Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru
Ysgrifenyddiaeth	Cymdeithas Gofal Iechyd Annibynnol Cymru